Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## Templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| | |
|---|---|
| Enw'r polisi neu'r maes busnes: | Ymgynghori ac Ymgysylltu |
| Enw'r unigolyn sy'n cynnal yr Asesiad o'r Effaith ar ydraddoldeb: | Hannah Hyde / Gruffudd Ifan |
| Swydd yr unigolyn sy'n ymgymryd â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: | Ymgynghoryddau Polisi ac Ymgysylltu, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |

### 1. Diben

| | |
|---|---|
| 1.1 Beth yw nodau'r Polisi, y Weithdrefn neu'r Gweithgaredd a sut y maen nhw'n cyd-fynd â nodau ehangach y sefydliad? | Datblygwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn fel asesiad trosfwaol o faterion cydraddoldeb sy'n gysylltiedig â gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gyffredinol yn ystod 2021-2022.<br><br>Yn statudol, rhaid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau lleol ar nifer o benderfyniadau plismona allweddol drwy gydol y flwyddyn, er enghraifft, pennu lefel Praesept yr Heddlu ar gyfer 2022-2023.<br><br>Mae'r Comisiynydd yn ymgynghori'n rheolaidd ac yn ymgysylltu â chymunedau lleol ar nifer o faterion sy'n ymwneud â phlismona drwy gydol y flwyddyn. |
| 1.2 Beth yw'r cymhellion neu'r grymoedd gyrru wrth ddatblygu'r Polisi, y Weithdrefn neu'r Gweithgaredd? | Bydd ymgyngoriadau a gweithgareddau ymgysylltu yn sicrhau bod gan gymunedau ardal Dyfed-Powys lais mewn materion plismona lleol.<br><br>Rhaid i ni sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i ddweud eu dweud os y dymunant wneud hynny. |

### 2. Asesiad

| Rhestrwch yr holl ddata/ymgynghoriad/ymchwil yr ydych wedi'u hystyried wrth gynnal yr asesiad hwn: |
|---|
| Cynllun Heddlu a Throseddu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu<br><br>Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb presennol Swyddfa'r Comisiynydd sy'n gysylltiedig ag ymgynghori ac ymrwymiadau. |

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**Rhowch fanylion canlyniad eich asesiad yn y graff isod:**

| **A allai'r Polisi, y Weithdrefn neu'r Gweithgaredd gael effaith anghymesur o negyddol ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon?** | |
|---|---|
| **Ar gyfer pob nodwedd** | Gallai<br><br>Oherwydd y pandemig parhaus, rhaid ymgymryd â'r rhan fwyaf o weithgareddau ymgysylltu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu drwy ddefnyddio llwyfannau ar-lein, ac nid wyneb yn wyneb. Gallai hyn gael effaith negyddol ar rai unigolion a grwpiau. |
| **2.1 Oed** | Na.<br>Mae cyfleoedd ymgynghori ac ymgysylltu yn agored i bob sector o gymdeithas ac nid yw oedran yn effeithio ar gynhwysiant. |
| **2.2 Anabledd** | Na.<br>Mae cyfleoedd ymgynghori ac ymgysylltu yn agored i bob sector o gymdeithas ac nid yw anabledd yn effeithio ar gynhwysiant. |
| **2.3 Ailbennu rhywedd** | Na.<br>Mae cyfleoedd ymgynghori ac ymgysylltu yn agored i bob sector o gymdeithas ac nid yw ailbennu rhywedd yn effeithio ar gynhwysiant. |
| **2.4 Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Na.<br>Mae cyfleoedd ymgynghori ac ymgysylltu yn agored i bob sector o gymdeithas ac nid yw statws priodasol / partneriaeth sifil yn effeithio ar gynhwysiant. |
| **2.1 Beichiogrwydd a Mamolaeth_** | Na.<br>Mae cyfleoedd ymgynghori ac ymgysylltu yn agored i bob sector o gymdeithas ac nid yw statws beichiogrwydd / mamolaeth yn effeithio ar gynhwysiant. |
| **2.6 Hil** | Na.<br>Mae cyfleoedd ymgynghori ac ymgysylltu yn agored i bob sector o gymdeithas ac nid yw hil yn effeithio ar gynhwysiant. |
| **2.7 Crefydd neu Gred** | Na.<br>Mae cyfleoedd ymgynghori ac ymgysylltu yn agored i bob sector o gymdeithas ac nid yw crefydd / cred yn effeithio ar gynhwysiant. |
| **2.8 Rhyw** | Na.<br>Mae cyfleoedd ymgynghori ac ymgysylltu yn agored i bob sector o gymdeithas ac nid yw rhyw yn effeithio ar gynhwysiant. |
| **2.9 Cyfeiriadedd Rhywiol** | Na.<br>Mae cyfleoedd ymgynghori ac ymgysylltu yn agored i bob sector o gymdeithas ac nid yw cyfeiriadedd rhywiol yn effeithio ar gynhwysiant. |

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, rhaid gwneud yr ystyriaethau a ganlyn hefyd mewn perthynas â'r Gymraeg:

| | |
|---|---|
| **2.10** Rhowch dystiolaeth o sut yr ydych chi wedi ystyried sut y byddai'r penderfyniad polisi wedi cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau cadarnhaol cynyddol, ar -<br>(a) cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, â<br>(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Mae'r holl wybodaeth am gyfleoedd ymgynghori ac ymgysylltu yn cael ei huwchlwytho i wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br><br>Darperir yr holl ddatganiadau i'r wasg, sy'n hyrwyddo cyfleoedd ymgynghori ac ymgysylltu, yn ddwyieithog i'r cyfryngau.<br><br>Mae negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, sy'n darparu gwybodaeth am gyfleoedd ymgynghori ac ymgysylltu byw neu sydd ar ddod, yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.<br><br>Os bydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori neu ymgysylltu penodol, gofynnir i unigolyn am ei ddewis iaith a bydd yr holl ohebiaeth ddilynol yn cael ei hanfon yn ei ddewis iaith.<br><br>Bydd y rhan fwyaf o'r staff sy'n ymgymryd â chyfleoedd ymgynghori ac ymgysylltu yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg. Os nad yw hyn yn wir, cymerir camau i sicrhau bod aelod o staff sy'n gallu siarad ei ddewis iaith yn cysylltu â'r unigolyn.<br><br>Mae cynllun cyflawni Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer Safonau'r Gymraeg yn sicrhau bod datblygiad polisi a darpariaeth gwasanaethau yn ystyried yr effaith ar y defnydd o'r Gymraeg. |
| **2.2** Rhowch dystiolaeth o sut yr ydych chi wedi ystyried na fyddai'r penderfyniad polisi hwn yn cael effeithiau niweidiol, neu sut y byddai'n cael effeithiau niweidiol gostyngol, ar —<br>(a) gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Fel yr uchod. |

## 3. Cynllun gweithredu i ostwng yr effaith a adnabuwyd

| | |
|---|---|
| **Effaith a adnabuwyd:** | Ar gyfer pob nodwedd: Oherwydd y pandemig parhaus, rhaid ymgymryd â'r rhan fwyaf o weithgareddau ymgysylltu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu drwy ddefnyddio llwyfannau ar-lein, ac nid wyneb yn wyneb. Gallai hyn gael effaith negyddol ar rai unigolion a grwpiau. |
| **Camau a gynigiwyd :**<br><br>**D.S. Os ystyrir bod modd cyfiawnhau'r effaith, yna dylid amlinellu'r rhesymau yn glir.** | Byddwn yn parhau i gyfathrebu cyfleoedd ymgynghori ac ymgysylltu yn gyhoeddus gan ddefnyddio llwyfannau traddodiadol ochr yn ochr â llwyfannau ar-lein, megis papurau newydd lleol a Phapurau Bro, lle bo hynny'n bosibl.<br><br>Byddwn hefyd yn parhau i roi gwybod i unigolion am yr opsiynau o ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu dros y ffôn neu drwy ddarparu copïau printiedig o ddogfennau drwy'r post. |
| **Dyddiad cwblhau:** | 21/06/2021 |
| **Dyddiad adolygu:** | 21/06/2022 |